**Bwrdd Partneriaeth Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin**
**10.2.2023**

**Ymddiheuriadau:**
Naomi Jones (Awdurod Parc Cenedlaethol Eryri), Kath Davies (Amgueddfa Genedlaethol), Sian Rees (ICOMOS-UK), Gareth Jones (Cyngor Gwynedd),

**Presennol**:

Yr Arglwydd Dafydd Wigley, Cyng. Nia Jeffreys, Dafydd Gwyn (Govannon), Roland Evans (Cyngor Gwynedd), Kate Roberts (CADW), Hannah Joyce (Cyngor Gwynedd), Gwyneth Hughes (Cyngor Gwynedd - Cofnodi), Ashley Batten (Cadw), Michael Bewick (JW Greaves), Ceri Williams (Ymddiriedolaeth Genedlaethol), Sioned Williams (Cyngor Gwynedd), Christopher Catling (RCAHMW), Andrew Edwards (Prifysgol Bangor), Elen Roberts (Amgueddfa Genedlaethol), Esther Roberts (Amgueddfa Genedlaethol; Jonathan Cawley (Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri), Lois Owens (Cyngor Gwynedd), Lucy Thomas (Cyngor Gwynedd), Sarah Jones (Cyngor Gwynedd)

| | |
|---|---|
| Derbyniwyd yr ymddiheuriadau uchod. | |
| **Cofnodion y cyfarfod diwethaf a materion yn codi**<br>Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf fel rhai cywir. | |
| **1. _Diweddariad STyB**<br>**Is Grŵp Cadwraeth**<br>• Trosolwg – Kate (Cadeirydd)<br>Adroddodd Kate bod y Grwp wrthi'n gweithio ar yr adroddiad cyfnodol UNESCO.<br><br>Ymhob cyfarfod o'r Is Grwp Cadwraeth mae'r aelodau yn adolygu cynllun gweithredu y Cynllun Rheoli.<br><br>Adroddodd Kate bod Swyddogion Cynllunio wedi cynnal hyfforddiant i Aelodau Lleol newydd.<br><br>Gareth/Johnathan/Roland a Hannah i gyfarfod i drafod sut i ymateb i unryw gais am gyngor. Cynnig iddynt fynychu'r Is Grwp Cynllunio neu'r Grwp Buddion.<br><br>• Gwarchodaeth – Ashley<br><br>Derbyniwyd adroddiad cynnydd gan Ashley.<br><br>**Is Grŵp Buddion**<br>• Trosolwg – Michael<br><br>Adroddwyd bod Aelodau Newydd ar yr is-grwp Buddion nawr – sef Always Aim High a Snowdonia Attractions. | |

Cyfeiriwyd at Gwmni Twristiaeth o Siapan oedd yn awyddus iawn i greu pecyn teithio o gwmpas y safleoedd Treftadaeth y Byd.

Trafodwyd y syniad o gael staff allweddol penodol amlwg ar y safleoedd treftadaeth y bydd fydd yn gallu ymateb ymholiadau yr ymwelwyr am y safle treftadaeth.

Nodwyd bod Zip World, Llechwedd and Dorothea wedi dod a cynllun i drafod gerbron yr Is Grwp Buddion. Mae'r sefydliadau yma yn addasu eu cynlluniau ac yn bwriadu dod gerbron yr Is Grwp Buddion unwaith fydd hyn wedi digwydd.

- Ceisiadau ariannol – Hannah

Adroddodd Hannah bod y cais I Gronfa Ffyniant Bro (Levelling Up Fund) wedi llwyddo. Roedd amodau'r grant wedi cyfyngu i dri cod post – felly bydd gweithgareddau yn ardal Llanberis, Bethesda a Blaenau Ffestiniog.

- Ail ddatblygiad safle Gilfach Ddu – gwaith cadwraeth ac ail fodelu gofodau
- Parc Padarn – gwella cysylltiad a llwybrau o fewn y Parc, toiledau, ailwynebu'r maes parcio, ail bwrpasu adeiladau hanesyddol yn cynnwys dychwelyd Fire Queen yn ôl i Barc Padarn.
- Neuadd Ogwen , Bethesda
- Ail ddatblygu yr Hen Bost (Bethesda) i greu canolfan dreftadaeth, unedau busnes a gofod creadigol
- Llwybr beicio a cherdded I gysylltu Bethesda a Chwarel Penrhyn.
- Ail ddatablygu dau siop wag ym Mlaenau Ffestiniog i fod yn hwb gymunedol
- Ail wampio Aelwyd yr Urdd i fod yn gofod dehongli, arddangos a chanolfan weithgareddau cymunedol/ieuenctid
- Llwybr beicio a cherdded i gysylltu Blaenau Ffestiniog a Chwarel Llechwedd

Arian ar gael i ymgymrwyd a gwellianau canol trefi sy'n cynnwys celf cyhoeddus, dehongli a gwelliannau isadeiledd bychain.

Arian ar gael i wneud gwaith cadwraeth ar asedau hanesyddol yn y dair ardal.

Ochr yn ochr a'r Gronfa Ffyniant Bro, mae Cronfa Ffyniant Gyffredin (Shared Prosperity Fund) – cais wedi ei gyflwyno ar gyfer cymunedau sydd ddim yn rhan o'r cynllun Cronfa Ffyniant Bro er mwyn gwneud gwelliannau canol trefi cyffelyb.

Mae Aelodau'r Bwrdd yn ddiolchgar iawn o'r gefnogaeth ariannol sydd wedi'i dderbyn.

Gweithio ar gynllun cyfathrebu.

Diolchodd Roland i'r Arglwydd Wigley am y gefnogaeth.

Gofynnodd yr Arglwydd Wigley am amserlen yr Amgueddfa Lechi o ran ail ddatblygiad Amgueddfa yn y Gogledd. Nododd Roland bod angen cyfarfod rhwng Carwyn Williams, Rheolwr Adnoddau Hamdden, Cyngor Gwynedd a'r Amgueddfa Genedlaethol yn fuan fel bod pawb yn glir o'r amserlen ac unrhyw oblygiadau o'r nail brosiect ar y llall. Nodwyd bod angen briffio Aelodau Lleol Llanberis ar y cynlluniau.

Cyfeiriodd Cyng. Nia Jeffreys am sefyllfa ariannol y Cyngor. Mae'n anodd gwybod o ble bydd ffynonellau ariannol yn y dyfodol.

| | |
|---|---|
| Cyfeiriodd Sioned at drafodaeth yn y cyfarfod diwethaf am gyllid a targedu arian o sawl ffynhonnell yn ogystal ag amrywiad partneriaid. Rydym yn edrych fel Cyngor ar gyllid gan yr Awdurdod Lleol tuag at llechi yn gyffredinol ond cadarnhau ein bod ni'n gallu ymrwymo i swydd Cydlynydd ar y cyd efo CADW. Mae ymrwymiad trwy prosiect Cronfa Dreftadaeth y Loteri ar gyfer swyddog prosiect yn ystod y cyfnod datblygu. Cais Cronfa Ffyniant Bro yn cynnwys cyllid ar gyfer swyddog tim adnoddau craidd. Papur gan Sioned yn y cyfarfod nesaf sy'n nodi adnoddau. Y risg fydd ariannu swyddi tu hwnt I gyfnod y grantiau. Cynllunio fel bod gan ni adnoddau craidd i gadw'r agenda i fynd ac wedyn manteisio pan mae cyfleoedd yn codi.<br><br>Penderfynwyd y byddai'n syniad i yrru nodyn diolch i Barwnes Olivia Bloomfield. Bydd angen bod yn glir yn enw pwy dylai'r diolch fynd – enw'r Bwrdd Llywio neu'r Cyngor.<br><br>Diolchwyd i'r Arglwydd Wigley, Hannah, Roland a Sioned am y gefnogaeth o ran levelling up ac SPF.<br><br>• Dehongli – Hannah<br>Adolygiad o'r cynllun dehongli ar waith, cwmni Headland wedi eu penodi.<br><br>**Themâu trawsbynciol**<br>• Iaith Gymraeg – Gwenllian / Roland<br>Bydd Roland yn gwahodd Dr. Sara Parry, Prifysgol Bangor i wneud cyflwyniad yn y cyfarfod nesaf.<br><br>Cynog Prys, Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Bangor wrthi'n peilota ymchwil cychwynnol ar effaith y dynodiad ar yr iaith Gymareg a teimlad pobol ar gael y dynodiad.<br><br>• Economi ymweld – Roland<br><br>Adroddodd Roland bod cynllun drafft economi ymweld yn mynd i Gabinet Cyngor Gwynedd yn Chwefror, 2023. | |
| **<u>2.</u> Adolygiad Cyfnodol Unesco – Kate**<br><br>Mae angen mewnbwn y Bwrdd ar sut i ateb y ddau gwestiwn sydd yn yr adroddiad cyfnodol UNESCO, yn ogystal ag unrhyw esiampl rydym yn teimlo sydd yn arddangos enghraifft dda o fewn y STYB o warchodaeth, cadwraeth neu rheolaeth.<br><br>*Please rate the impacts of WH Status of the property in relation to the following areas:*<br><br>*13.1.4 Quality of life for local communities*<br><br>• *Not applicable*<br>• *Negative*<br>• *No impact*<br>• *Positive*<br>• *Very Positive*<br><br>Trafodwyd sut dylid ymateb i'r cwestiynau. Roedd mwyafrif o'r farn y dylid ymateb fel 'positif/positive' i'r cwestiwn yma. Roedd rhai o'r farn y dylid peidio bod yn rhy uchelgeisiol y rownd yma gan ymateb yn fwy cadarnhaol yn y rownd nesaf mewn 5 mlynedd. Roedd rhai aelodau'r Bwrdd yn teimlo y dylid sgorio yn uchel. Yr ymatebion ym fydd ein gwaelodlin ar gyfer y dyfodol. | |

| | |
|---|---|
| *Are key indicators defined and in place for the following principal assets of the property?*<br><br>*10.3.6 Capacity Development*<br><br>• *Not applicable*<br>• *No indicators*<br>• *Indicators have been defined but are not in use yet*<br>• *Indicators are in place and in use since the last Periodic Reporting Cycle*<br><br>Nododd Esther bod yn bwysig casglu'r data fel bod y data ar gael i helpu ateb y cwestiynau yn y dyfodol.<br><br>Penderfynwyd y byddai Cadeiryddion y Grwpiau Llechi yn arwyddo'r adroddiad cyfnodol UNESCO cyn diwedd Mawrth gan ddod a chopi o'r adroddiad gerbron y Bwrdd yma. Bydd copi drafft yn cael ei rannu efo Aelodau'r Bwrdd cyn diwedd Mawrth. | |
| **3. Gweithdy a chyflwyniad gan Lucy**<br><br>Pwrpas y gweithdy yw i adnabod cynulleidfaoedd targed ar gyfer y prosiect Loteri, ac hefyd i adnabod y gwahaniaeth rydym eisiau ei weld yn yr ardal o ganlyniad i dderbyn nawdd y Loteri.<br><br>Yn ein cais llwyddiannus i Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol ar gyfer y cyfnod datblygu (2022-23) nodwyd y pwyntiau yn y papur trafod fel i) prif bwrpas y prosiect, ii) y bobl neu'r grwpiau fydd yn elwa o'r prosiect a iii) y canlyniadau y byddwn yn anelu at fod wedi cyflawni ar ddiwedd y cyfnod cyflawni pum mlynedd (2024-30). Wrth inni ddatblygu'r cais ar gyfer y cyfnod cyflawni gofynnwyd i'r aelodau ystyried a yw'r rhain yn parhau i fod yn berthnasol ac yn flaenoriaethau gennym neu oes angen eu diwygio?<br><br>Gofynnwyd i aelodau'r Bwrdd anfon eu sylwadau ar y cwestiynau i Lucy erbyn canol mis Mawrth. | |
| **4. Unrhyw Fater arall**<br><br>Cystadleuaelth ffotograffiaeth Amgueddfa Lechi - arddangosfa cael ei lawnsio mis Mai –<br><br>Gŵyl Telyn Rhyngwladol dros y Pasg yn Galeri, Caernarfon.<br><br>Dymunwyd pob lwc i Dafydd Gwyn wrth iddo ddebyn ei anrhydedd.<br><br>Penderfynwyd i anfon llythyr o ddiolch i David Anderson, Amgueddfa Genedlaethol, am ei fod yn gadael ei swydd.<br><br>Cydweithio Rhyngwladol (Roland) – nododd Roland ei fod angen ail-drefnu'r cyfarfod a oedd i'w gynnal efo Dafydd Gwyn i drafod hyn. Atgoffwyd pawb bod cydweithio yn digwydd rhwng Prifysgol Bangor a Michigan State Technical College. Nododd yr Athro Andrew Edwards ei fod yn gefnogol iawn i barhad y prosiect cydweithio. | |
| **5. Dyddiad y cyfarfod nesaf**<br><br>**21 Ebrill am 11:00 o'rgloch – Cyflwyniad gan Dr. Sara Parry**<br><br>**Papur gan Sioned y.a. cyllid** | |